OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1605

# Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011

**Cymhwyso amrywiol adrannau o'r Ddeddf**

**11.**—(1) Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu unrhyw Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 20 (tramgwyddau o ganlyniad i fai person arall);

(b) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy)(**1**) gyda'r addasiad—

(i) bod is-adrannau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dorri rheoliad 3 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 14 neu 15, a

(ii) yn is-adran (4), ystyrir bod y cyfeiriadau at "sale" yn cynnwys cyfeiriadau at "placing on the market";

(c) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(ch) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(**2**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(a) uchod;

(d) adran 35(2) a (3)(**3**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(b) isod;

(dd) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(e) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**4**).

(2) Wrth gymhwyso adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad) at ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid dehongli'r cyfeiriadau yn is-adran (1) at y Ddeddf fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at Reoliad y Comisiwn.

(3) Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf i'w dehongli fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at Reoliad y Comisiwn a'r Rheoliadau hyn—

(a) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(b) adran 33(2), gyda'r addasiad bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" i'w ystyried yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r math a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (a) uchod; ac

(c) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(4) Mae adran 34 o'r Ddeddf (terfyn amser ar gyfer erlyniadau) yn gymwys i dramgwyddau o dan reoliad 4 fel y mae'n gymwys i dramgwyddau sy'n gosbadwy o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.

(**1**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.
(**2**) Diwygiwyd 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.
(**3**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.
(**4**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), Atodlen 5, paragraff 16.